

O Smotyn i Smotyn



Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Gosod marcwyr yn eu swigen fel y gallant sefyll ag un droed ar bob marciwr
- Ychwanegu mwy o farcwyr (hyd at 4) fel y gallant osod un rhan o'u corff ar bob marciwr; e.e. llaw, llaw, troed, troed
- Codi un llaw neu un droed oddi ar y marciwr a chyfrif '3 banana'
- Bod â'u bol tuag i fyny neu'u cefn tuag i fyny



Cwestiynau

- Pa mor agos at ei gilydd y gallwch chi osod eich marcwyr?
- Pa mor bell oddi wrth ei gilydd y gallwch chi osod eich marcwyr ac aros yn llongydd?
- Pa rannau o'r corff sydd orau i'w defnyddio pan fydd y marcwyr yn bell oddi wrth ei gilydd?
- P'un sydd hawsaf – codi llaw neu godi troed oddi ar y marcwyr?
- P'un sydd hawsaf i chi – bod â'ch bol tuag i fyny neu'ch cefn tuag i fyny?

Geiriau allweddol

- Enwau rhannau'r corff, ymwybyddiaeth o'r corff
- Estyn, ymestyn, cadw cydbwysedd
- Yn bell oddi wrth ei gilydd, yn agos at ei gilydd
- Bol tuag i fyny, cefn tuag i fyny

Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff
- adnabod a defnyddio gwahanol rannau'r corff
- dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwysrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
- Yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol rannau'r corff?
- Yn dangos gwell cydbwysedd a sgiliau cydsymud?

gan amlaf

weithiau

Anogwch y plentyn i:

- ddisgrifio'i weithrediadau ef neu weithrediadau plentyn arall gan ddefnyddio iaith ynghylch safle
- adnabod agweddau tebyg ac agweddau gwahanol yn ei weithrediadau ef a gweithrediadau plentyn arall
- archwilio gosod y marcwyr ar gorneli siapiau 2D
- defnyddio marcwyr llai o faint
- ymateb i gyfarwyddiadau penodol, e.e. rhoi llaw ar farciwr coch, rhoi troed ar farciwr glas

Anogwch y plentyn i:

- gopio plentyn arall neu ymarferwr
- trafod y lleoedd gorau i roi'r marcwyr, cyn rhoi cynnig arni
- gweithio gyda phlentyn arall fel bod y naill yn helpu'r llall

Cyfleoedd campus

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llafaredd – gurando ar gyfarwyddiadau ac ymateb iddynt, ac ymestyn eu geirfa drwy weithgareddau sy'n annog eu diddordeb mewn geiriau
- Datblygiad Mathemategol: Siâp, safle a symud – adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng siapiau 2D